

DEMOCRATIAETH LEOL

BETH YW E?



Mae Democratiaeth Leol wrth galon ein cymdeithas. Mae'n rhoi'r hawl i unigolion gymryd rhan yn eu llywodraeth leol ac i ddylanwadu ar y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau.

CYNGHORWYR

- Etholwyd gan drigolion yr ardal leol i wasanaethu am dymhorau 5 mlynedd
- Gweithredu fel llefarydd gwleidyddol ar gyfer eu cymuned
- Cymerwch ran mewn democratiaeth trwy gysylltu â'ch Cyngorydd

DEWCH YN GYNGHORYDD

- Gallwch CHI sefyll i gynrychioli barn y gymuned yn eich ardal
- Rhaid i chi fod yn 18 oed, yn ddinesydd cymwys, ac yn bodloni ystod o feini prawf ynghylch gweithio a byw yn yr awdurdod lleol



SUT I GYMRYD RHAN...

CYFARFODYDD CYHOEDDUS



Mae'r Cabinet a'r Cyngor Llawn yn gyfarfodydd cyhoeddus agored ac ar gael i drigolion eu mynychu yn bersonol neu ar-lein.

CRAFFU



Mae Pwyllgorau Craffu yn agored i'r cyhoedd ac yn ystyried gwasanaethau'r Cyngor a phenderfyniadau allweddol a wneir gan Aelodau etholedig. Mae gan RCT 4 pwyllgor craffu allweddol, pob un â'i Raglen Waith flynyddol ei hun. Trwy gymryd rhan, gallwch helpu i lenwi'r rhaglenni hyn.



DEISEBAU

Mae gan unigolion, grwpiau cymunedol, a sefydliadau i gyd yr hawl i drefnu deisebau i godi materion o bryder cyhoeddus.



CWESTIYNAU

Mae gan bob preswylydd yr hawl i wneud cais am amser i siarad mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gofyn cwestiynau i Aelodau etholedig am eitemau ar yr agenda y maent yn angerddol yn eu cylch.



35.5%



Yn Etholiadau Lleol 2022 dim ond 35.5% o drigolion RhCT a gymerodd ran, ychydig dros 1/3.

Y ffordd hawsaf y gall pobl ymgysylltu â democratiaeth yw drwy bleidleisio. Mae dweud eich dweud yn golygu y gallwch chi wneud cyfraniadau cadarnhaol i'ch cymuned.

Gallwch gofrestru i bleidleisio yng Nghymru o 14 oed, a phleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol a Senedd pan fyddwch yn 16 oed.

YEPS

POBL IFAINC

Mae gan y Cyngor Fforwm leuencid sy'n cael ei redeg gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad leuencid (YEPS). Maent yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau am ddim i bobl 11-25 oed, gan annog pobl ifainc i gymryd rhan yn eu cymuned.



PANEL DINASYDDION



Mae ein Panel Dinasyddion yn caniatáu i drigolion gymryd rhan fwy gweithredol mewn democratiaeth drwy rannu anghenion, safbwyntiau, profiadau a disgwyliadau'r gymuned gyda'r Cyngor. Mae hwn yn gyfle gwych i lunio'r ffordd y mae'r Cyngor yn rhedeg.